Cyflwyno rhaglen Cymru Fyw: gwireddu potensial Parciau Cenedlaethol - Crynodeb

Cyflwyniad

Mae Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol yn elusen sy'n ymgyrchu i warchod ac i hyrwyddo Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr fel mannau prydferth sy'n ysbrydoli, y gall pawb eu mwynhau a'u gwerthfawrogi. YPC Cymru sy'n gyfrifol am ein gwaith yng Nghymru, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o Gymdeithasau'r Parciau Cenedlaethol ac o gyrff eraill fel YDCW a Chymdeithas Genedlaethol AHNEau. Cafodd y ddogfen hon ei llunio wedi ymgynghori ag YPC Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru ar ganol cyflwyno dull newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru, sy'n cael ei alw'n Rhaglen Cymru Fyw. Mae Adran 2 y briffio hwn yn gosod gweledigaeth ar gyfer tirweddau sydd wedi'u gwarchod yng Nghymru ar sail yr un a gafodd ei chytuno gan Bartneriaeth Tirwedd Cymru[1]. Mae Adrannau 3 a 4 y ddogfen yn rhoi sylw i'r heriau a'r cyfleoedd y mae'r dull newydd yn eu cynnig i Barciau Cenedlaethol Cymru fel y crynhoir isod. Mae'r briffio'n gorffen gyda chynigion am y ffordd ymlaen, yn enwedig o ran gweithredu gan Lywodraeth Cymru.

Y cyfleoedd

- **Cyfraniad potensial tirweddau ac ardaloedd môr i'r dull newydd.** Mae'r Parciau Cenedlaethol yn cynnwys tirweddau gorau Cymru ac mae rhinweddau dau ohonyn nhw'n deillio o'r arfordir gerllaw. Mae cyfle i sicrhau bod adnoddau'r Parciau Cenedlaethol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ofalu am eu tirweddau a'u harfordiroedd.
- **Rhoi mwy o ddiogelwch i ardaloedd môr pwysig yn genedlaethol** trwy wneud newidiadau deddfwriaethol i wneud yn siŵr bod agweddau tir a môr Parciau Cenedlaethol yr arfordir yn cael eu trin yn gyfartal, er enghraifft, trwy estyn eu ffiniau allan i'r môr a rhoi i'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol (APCau) y dyletswyddau a'r adnoddau i reoli'r mannau hyn yn effeithiol.
- **Hwyluso mynediad gwell i'r amgylchedd, a dealltwriaeth ohono.** Gyda'r mecanweithiau galluogi cywir a'r gefnogaeth sydd ar gael, mae'r Parciau Cenedlaethol yn cynnig llawer o gyfleoedd i'r cynlluniau sy'n ceisio sicrhau bod grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli'n gallu cael gwell mynediad i'r amgylchedd a gwell dealltwriaeth ohono, ac i'r manteision y mae hyn yn eu cynnig.
- **Cydnabod y cyfraniad y mae Parciau Cenedlaethol yn ei wneud i economi Cymru,** fel bod eu gwerth yn cael ei gydnabod yn fwy eang a phwysigrwydd eu gwarchod yn cael ei ddeall yn well.
- **Rôl APCau fel arweinwyr wrth hwyluso defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd naturiol**

[1]Partneriaeth Tirweddau Cymru, Agenda i Dirweddau Cymru a Warchodir

a) **Trwy ddwysáu ac estyn cyfleoedd partneriaethau,** trwy adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud eisoes i baratoi Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol.
b) **Trwy ddull cyfannol o gynllunio a rheoli** gan weithio tuag at ddull ar sail graddfa tirwedd yn hytrach nag yn ôl ffiniau gweinyddol traddodiadol.
c) **Trwy werthfawrogi systemau ecosystem:** Mae APCau mewn safle arbennig i ddatblygu dull cenedlaethol o fesur gwerth ac i brofi a monitro effaith y dull newydd.

ch) Trwy gyflwyno cynlluniau amaeth-amgylcheddol: Gallai APCau chwarae rôl allweddol wrth reoli a chyflwyno cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir yn eu hardaloedd.

- **Cydnabod rôl Parciau Cenedlaethol wrth gyflwyno amcanion ehangach,** gan amrywio o drin newid hinsawdd i hyrwyddo mynediad i rwydweithiau hamdden, nid yn unig trwy raglen Cymru Fyw, ond hefyd trwy gydnabod a derbyn yn briodol amrywiaeth llawn y manteision y mae'r Parciau Cenedlaethol yn eu rhoi i'r cyhoedd mewn polisïau perthnasol arall Llywodraeth Cymru.
- **Y potensial i gyflwyno arbedion effeithlonrwydd** trwy drosglwyddo rheolaeth Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn y Parciau Cenedlaethol i'r APCau.

Yr heriau

- **Sicrhau nad yw'r amddiffyniad hanfodol presennol i'r amgylchedd yn cael ei** wanhau trwy resymoli'r dynodiadau tirwedd presennol yn ddiangen.
- **Nodau gwarchod tymor hir a nodau tymor byr:** sicrhau nad yw gwarchod a gwerthfawrogi'r Parciau Cenedlaethol yn cael ei wanhau wrth ddilyn nodau economaidd a chymdeithasol tymor byr.
- **Colli cyllid am waith y trydydd sector** sy'n chwarae rôl hanfodol wrth gyflwyno nodau hamdden a chynaliadwyedd yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ac a allai wneud cyfraniad sylweddol i gyflwyno rheoli adnoddau cenedlaethol.
- **Sicrhau nad yw datblygu amhriodol yn cael effaith negyddol** ac nad yw'n gwanhau'r amrywiaeth o fanteision y mae tirweddau sydd wedi'u hamddiffyn yn eu cynnig. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol bod APCau yn cadw eu pwerau cynllunio.
- **Cydnabod gwir werth yr amgylchedd.** Mewn Parciau Cenedlaethol, mae newidiadau niweidiol i harddwch naturiol rhyfeddol y tirweddau, i'r teimlad o wylltineb ac o ffoi, neu i hen dreftadaeth ddiwylliannol, yn hynod o anodd rhoi pris arnynt.
- **Sicrhau bod y Parciau Cenedlaethol yn gallu parhau i gyfrannu i economi Cymru** ac yn codi ymwybyddiaeth uwch o'r cyfraniad hwn i sicrhau bod gwerth y dynodiad yn dal i gael ei gydnabod a'i gefnogi.
- **Sicrhau cefnogaeth wleidyddol i Barciau Cenedlaethol** a sicrhau nad yw'r amddiffyniad yn cael ei wanhau trwy newidiadau sy'n cael eu gwneud yn San Steffan a allai gael effaith niweidiol ar werth Parciau Cenedlaethol i economi Cymru.

Y Ffordd Ymlaen - Argymhellion i Lywodraeth Cymru

- Gweithredu a chyllido peilot o'r dull newydd a gynigiwyd i reoli adnoddau yn un o'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.
- Cadarnhau rôl APCau fel awdurdodau cynllunio lleol.

- Cydnabod amrywiaeth llawn y manteision y mae Parciau Cenedlaethol yn eu rhoi i'r cyhoedd.
- Sicrhau bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru bwerau ac adnoddau priodol i barhau i warchod a gwella'r Parciau Cenedlaethol ac i hyrwyddo eu dibenion statudol.
- Gweithredu newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i estyn ffiniau'r Parciau Cenedlaethol arfordirol i'r ardaloedd morol cyfagos a rhoi i'r APCau perthnasol y pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i'w galluogi i reoli'r ardaloedd hyn yn effeithiol.
- Ei gwneud yn glir i Lywodraeth y DU bod cefnogaeth gref yng Nghymru i Barciau Cenedlaethol ac nad oes croeso i fesurau sydd â'r potensial i wanhau'r amddiffyniad iddynt.

Mae'r crynodeb hwn ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r ddogfen friffio lawn ar gael yma http://www.cnp.org.uk/publications